# WGOS Cylchlythyr

Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru
Wales General Ophthalmic Services

*6ed argraffiad, Medi 2023*

## Croeso

Bydd Cylchlythyr WGOS yn eich cefnogi i lywio drwy ddiwygio contract optometreg Llywodraeth Cymru. Bydd pob cylchlythyr yn rhoi crynodeb o bwnc penodol gyda dolenni i adnoddau a chymorth perthnasol. Gydag awgrymiadau a chyngor i'ch helpu i baratoi ar gyfer y gwasanaethau optometreg newydd… **rydym yma i'ch cefnogi chi.**

Bydd rhaglen ddiwygio WGOS yn gweld yr ystod o wasanaethau gofal llygaid a ariennir gan y GIG a ddarperir gan optometryddion, ymarferwyr meddygol offthalmig (OMP) ac optegwyr cyflenwi yng Nghymru yn cynyddu, gyda phob aelod o dîm y practis yn cydweithio i weithio ar frig eu trwydded glinigol berthnasol.



## Bydd cylchlythyr #6 yn canolbwyntio ar y canlynol: Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru yn dod yn WGOS 3

***Yn dilyn gweminarau diweddar WGOS 5 IPOS Brys a WGOS 1 a 2 , bydd yr Arweinydd Clinigol Cenedlaethol ar gyfer WGOS yn cynnal gweminar ryngweithiol i drafod y newidiadau sydd i ddod i Wasanaeth Golwg Gwan Cymru. Dylai contractwyr a pherfformwyr fynd i'r gweminarau neu wylio'r recordiadau fel rhan o'u paratoadau ar gyfer WGOS.***

O ganol mis Hydref 2023, bydd Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru yn cael ei disodli'n genedlaethol gan WGOS 3. Bydd y weminar yn esbonio beth fydd yn wahanol a beth fydd yn aros yr un fath yn y gwasanaeth newydd.

Bydd y weminar yn ymdrin â sut i ddarparu'r gwasanaeth a hefyd sut i atgyfeirio i'r gwasanaeth, a fydd yn dod yn ofyniad gorfodol i bawb. Felly p'un a ydych yn darparu Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru ai peidio, mae hon yn weminar bwysig i bawb!



# Cwestiynau allweddol

**?** Ydw i'n gontractwr, yn optometrydd neu'n optegydd cyflenwi sy'n gweithio yng Nghymru?

- Os '***ydw' yw eich ateb, gweithredwch nawr***: Cadwch y dyddiad ar gyfer un o weminarau lansio WGOS 3.
- Os **'*nac ydw'*** yw eich ateb i'r cwestiwn uchod, ymlaciwch ac arhoswch am y cylchlythyr nesaf.

**Wedi colli'r gweminarau blaenorol?** Peidiwch â phoeni! Gallwch wylio gweminarau blaenorol ar wefan Gofal Llygaid Cymru neu drwy glicio yma.

# Crynodeb

## Beth?

Gweminarau ar gyfer newid Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru i WGOS 3.

## Pryd?

- **Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru yn dod yn WGOS 3:** 29 Medi, hanner dydd - 1pm
- **Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru yn dod yn WGOS 3:** 4 Hydref, 7-8pm

## Sut?

Nid oes angen cofrestru.

Cliciwch ar y dolenni neu ewch i: https://www.gig.cymru/sa/gofal-llygaid-cymru/gweithwyr-proffesiynol/newyddion-diweddaraf-i-weithwyr-proffesiynol/cylchlythyrau-wgos/ a chliciwch ar y dolenni yn Cylchlythyr #6.

# Cadwch mewn cysylltiad

I gael diweddariadau yn y dyfodol trwy e-bost, cofrestrwch eich cyfeiriad e-bost yn: https://forms.office.com/e/4Kksq7sFpu

**Neu;**

Neu tynnwch lun o'r cod QR isod gyda'ch ffôn clyfar.

Gellir dod o hyd i ddiweddariadau blaenorol yn:
https://www.gig.cymru/sa/gofal-llygaid-cymru/gweithwyr-proffesiynol/newyddion-diweddaraf-i-weithwyr-proffesiynol/cylchlythyrau-wgos/